**EOC 03-03(p9)**

**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

**Dyddiad:** 20 Mawrth 2003

**Amser:** 9:15am

**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd

**Teitl:** Adroddiad ar Waith y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ers Hydref 2002 a syniadau ar gyfer rhaglen waith y pwyllgor newydd

**Diben**

1. Diben y papur hwn yw edrych ar y gwaith y mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal wedi'i wneud ers ei adroddiad blynyddol diwethaf (Hydref 2002), rhoi darlun cyffredinol o waith y Pwyllgor ers cychwyn sesiwn cyntaf y Cynulliad a chynnig syniadau ar gyfer rhaglen waith y Pwyllgor newydd.

**Argymhelliad**

2. Gofynnir i Aelodau gytuno ar yr adroddiad sy'n crynhoi gwaith y Pwyllgor ers yr adroddiad blynyddol diwethaf er mwyn iddo allu ei roi gerbron y Cynulliad ac i gynnig eu sylwadau ar y syniadau am yr hyn y gallai'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal newydd ei wneud.

**Y Cefndir**

3. Fe welwch gopi o'r adroddiad crynhoi yn Atodiad A.

4. Mae'r syniadau ar gyfer rhaglen waith y Pwyllgor Cyfle Cyfartal olynnol wedi'u crynhoi ym mharagraff 31 yr adroddiad.

5. Mae Adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad baratoi adroddiad ar ôl pob blwyddyn ariannol ar yr hyn y mae wedi'i wneud i gyflawni ei ddyletswydd ym maes cyfle cyfartal. Caiff yr adroddiad hwn ei baratoi ar ôl toriad y Pasg a'r Etholiad, a bydd y gwaith o'i gynhyrchu a'i asesu yn un o orchwylion cyntaf y Pwyllgor newydd.

**Camau i'w cymryd**

6. Gwahoddir yr aelodau i gymeradwyo'r adroddiad, i gynnig eu sylwadau ar y syniadau ar gyfer rhaglen waith y Pwyllgor ac awgrymu unrhyw feysydd eraill y gallai'r Pwyllgor eu hystyried.

**Pwynt Cyswllt**

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor